



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Rhith-brofiad gyrfa yn Gymraeg a Saesneg

Creu fideos i ddarparu rhith-brofiad gyrfa i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg

Dyddiad: Medi 2018

Gan fanteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf, aeth Gyrfa Cymru ati i greu rhith-brofiad gyrfa i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg.

CEFNDIR

Mae Gyrfa Cymru Careers Wales, sy'n gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol a diduedd i bobl o bob oed yng Nghymru.

Bu Gyrfa Cymru yn datblygu ei alluoedd digidol er mwyn bywiogi maes gyrfaoedd i bobl ifanc. Gwyddai fod amrywiaeth eang o sefydliadau'n defnyddio adnoddau rhith-wirionedd i ysgogi cyfranogwyr mewn digwyddiadau ac ym myd addysg, a chredai y byddai'r math hwn o adnodd yn addas iawn er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o feysydd gyrfa gwahanol.

Roedd Gyrfa Cymru wedi ymrwymo yn ei gynllun iaith Gymraeg i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Roedd ei gynllun iaith (sydd wedi'i ddisodli gan gyfundrefn y safonau erbyn hyn) yn datgan:

Bydd polisiau a mentrau newydd yn hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosib ac yn parhau i weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb.

Erbyn hyn, mae Gyrfa Cymru'n gweithredu safonau cyflenwi gwasanaethau Llywodraeth Cymru, ac mae safon 84 yn nodi:

Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.

Byddai'n rhaid felly i unrhyw adnodd o'r fath yr oedd Gyrfa Cymru yn ei ddarparu i'r cyhoedd yng Nghymru fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Y CAMAU A GYMERWYD

Byddai'r rhith-brofiad gyrfa'n gadael i bobl ddefnyddio teclyn pen i wyllo fideo realistig sy'n rhoi blas ar weithio mewn gwahanol sectorau sy'n allweddol i economi Cymru. Datblygwyd y fideos mewn partneriaeth â chyflogwyr blaenllaw.

Cynlluniwyd natur ddwyieithog y gwasanaeth o gychwyn cyntaf y prosiect, gan gytuno â'r cyflenwr allanol y byddai'r holl gynnwys a gynhyrchwyd ar gyfer y rhith-brofiad gyrfa ar gael yn y ddwy iaith. Penderfynwyd cynhyrchu dwy fersiwn o bob fideo – fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

I symleiddio'r broses, cynlluniwyd y fideos fel na fyddai dim sgysiau i'w clywed ynddynt, ac fel y byddent yn drosolwg ar y gweithleoedd, yn hytrach na dangos unrhyw ddeialogau neu gyfweiliadau. Yn ogystal â chydymffurfio â gofynion iaith, galluogodd y dull hwn y cwmni i leihau cost y prosiect.

Mae'r fideos sylfaenol yn niwtral o ran iaith, ac ychwanegwyd troslais a thestun atynt er mwyn creu'r fersiynau Cymraeg a Saesneg. Cafodd yr holl destun a'r sgriptiau eu cyfieithu gan wasanaeth cyfieithu cymeradwy Gyrfa Cymru. Trefnwyd i'r rhain gael eu prawfddarllen ar ôl creu'r fideos, a'u cymeradwyo gan yr un cyfieithwyr.

Defnyddir y fideos mewn digwyddiadau a gweithgareddau ac yn ystod ymgyrchoedd, a rhoddir gwybod i'r rhai sy'n bresennol eu bod ar gael yn ddwyieithog. Er mwyn sicrhau bod yr adnodd ar gael pan nad yw'r teclynnau pen ar gael, mae Gyrfa Cymru wedi trefnu i'r fideos fod ar gael i'w gwyllo ar sianeli YouTube [Gyrfa Cymru](#) a [Careers Wales](#) (e.e. [fideo ynghylch GIG Cymru](#)) fel y gall pobl eu gwyllo gartref gan ddefnyddio'u dyfeisiau eu hunain, yn eu dewis iaith.

Manylion cyswllt

Enw: Leon Patnett

Sefydliad: Gyrfa Cymru

E-bost: Leon.Patnett@careerswales.com

BARN Y COMISIYNYDD

Mae Gyrfa Cymru wedi llwyddo i gynhyrchu adnodd technolegol arloesol sydd ar gael yn ddwyieithog. Mae'r ffaith bod y rhith-brofiad gyrfa ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn sicrhau y gall siaradwyr y ddwy iaith elwa ar y profiad yn eu dewis iaith. Mae'n amlwg y

bu'r Gymraeg yn ystyriaeth ganolog ers cychwyn y prosiect, gan adlewyrchu natur ddwyieithog cynulleidfa'r cwmni. Mae llwyddiant y broses yn dangos ymarferoldeb ac effeithiolrwydd cynllunio a datblygu adnoddau technolegol ar yr un pryd mewn sawl iaith, a thrwy hynny wella profiadau defnyddwyr a sicrhau nad oes dim yn eu rhwystro rhag llwyddo yn y dyfodol.